

# Rhaglen **Arweinyddiaeth** Wleidyddol

## CYMRU

**Dydd Mawrth 1 a Dydd Mercher 2 Rhagfyr 2026**

Coleg Nyrsio Brenhinol
Cymru
Royal College of Nursing
Wales

# Rhaglen Arweinyddiaeth Wleidyddol CYMRU

Dydd Mawrth 1 a Dydd Mercher 2 Rhagfyr

## 2026



Bydd y cwrs yn apelio at bobl sydd eisiau:

- **deall dylanwad gwleidyddiaeth ar bolisi gofal iechyd**
- **dylanwadu ar newid mewn polisi iechyd neu gymdeithasol**
- **datblygu strategaethau i lunio polisi**
- **deall cyd-destun polisi a deddfwriaeth datganoli**
- **ennill cefnogaeth rhanddeiliaid allanol**
- **gwella eu sgiliau arweinyddiaeth**

Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ar frig yr agenda wleidyddol. Mae ymgyrch gref o ran polisi i ail-lunio gwasanaethau cymunedol a darparu gofal iechyd a chymdeithasol di-dor.
Yn 2026, bydd Senedd Cymru newydd, wedi'i hehangu, yn cael ei hethol, a Llywodraeth Cymru newydd, fydd yn rhoi cyfleoedd newydd i ymgysylltu a dylanwadu.

*Nod cyffredinol y cwrs hwn yw datblygu unigolion, timau a sefydliadau i ddylanwadu ar iechyd, polisi iechyd a gofal iechyd.*

Bydd y rhaglen yn archwilio sut mae'r amgylchedd gwleidyddol yn gosod y cyd-destun ar gyfer yr ymarferydd unigol a'r sefydliad. Bydd yn ehangu eich gwybodaeth am sut mae polisïau iechyd a chymdeithasol yn cael eu llunio yng Nghymru. Bydd yn annog cyfranogwyr i ymgysylltu â pholisi strategol ac yn darparu'r gallu ar gyfer ymgysylltu o'r fath ac ar gyfer dylanwadu ar yr agenda ehangach.

Bydd y cwrs yn cael ei gyflwyno gan ymarferwyr lobïo, ymgyrchu a chyfryngau profiadol, a bydd yn cynnwys siaradwyr gwadd dylanwadol, wedi'u dewis yn ofalus o ystod o gyn-wleidyddion a rhai presennol, arbenigwyr gwleidyddol ac arweinwyr nyrsio. Bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno dros ddau ddiwrnod yn olynol gyda dull dysgu cyfunol fydd yn cynnwys trafodaeth ryngweithiol a gweithdai ymarferol.

**Sylwadau gan Gyfranogwyr Blaenorol:**
"Rhaglen wych. Rwy'n teimlo'n freintiedig o fod wedi gwrando ar y siaradwyr ac nid wyf bellach yn teimlo'n ofnus o wleidyddiaeth. Roedd y rhaglen yn gwneud gwleidyddiaeth yn gyraeddadwy ac wedi'i deilwra ar gyfer nyrsio. Un o'r cyrsiau gorau rydw i erioed wedi bod arno yn fy ngyrfa. Diolch yn fawr iawn. Rwy'n bwriadu bod yn fwy ymwybodol o wleidyddiaeth ac yn fwy gweithredol yn y dyfodol."
"Addysgiadol, grymusol a darluniol. Mae wedi bod yn ganolog i wella fy nealltwriaeth o faterion strategol gan ddangos goblygiadau fy ngwasanaeth a fy arweinyddiaeth yn lleol ac yn genedlaethol."

# Sut i archebu:

Archebu ar-lein: www.rcn.org.uk/PLP

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y cwrs, anfonwch e-bost at:
**policy.publicaffairs.wales@rcn.org.uk**

**Ffioedd y cwrs:** Ffi y cwrs yw £400 + TAW y pen sy'n cynnwys cofrestru ar gyfer y cwrs, deunyddiau'r cwrs, cinio, lluniaeth.

**Polisi canslo:** Bydd canslo wythnos cyn dechrau'r digwyddiad yn cael eu had-dalu, gyda ffi weinyddol o £25 wedi ei chymryd ohono. Ni ellir prosesu unrhyw ad-daliadau ar ôl y dyddiad hwn. Gellir newid lleoedd os byddwch yn rhoi gwybod i RCN ymlaen llaw a'n bod yn cytuno i hynny ddigwydd.

RCNWales
rcn_wales
rcn-wales
thercnwales.bsky.social

Images used with the kind permission of the Public Information Service of the National Assembly for Wales